

Canllawiau Arfer Da

DEALL BETH FYDD EFFAITH DEDDF YR HEDDLU, TROSEDDU, DEDFRYDU A'R LLYSOEDD AR LES

GORFFENNAF 2022



Rhagair

Mae Tîm Cyngor i Deithwyr yn cynghori ac yn cynrychioli Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru a Lloegr. Rydym yn hynod bryderus ynghylch y posibilrwydd o ganlyniadau trychinebus y drosedd tresmasu newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Heddlu 2022. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Canllawiau yn bwysig iawn i geisio lleddfu rhai o effeithiau gwaethaf posibl y defnydd o'r drosedd newydd hon. Rydym felly'n croesawu'r Canllawiau ardderchog yma gan BASW ac yn ddiau fyddwn yn dyfynnu'n helaeth ohonynt.

Chris Johnson

Tîm Cyngor i Deithwyr – Partneriaeth Cyfraith Gymunedol Cyf.

Cydnabyddiaeth

Ysgrifennwyd y Canllawiau Arfer Da hyn gan Dan Allen o Brifysgol Fetropolitan Manceinion gyda chefnogaeth gan Gymdeithas y Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Fe hoffai Dan Allen a Chymdeithas y Sipsiwn, Roma a Theithwyr ddiolch i Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain am roi'r cyfle i gwblhau ac i ledaenu'r canllawiau hyn. Heb eu hymrwymiad i gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol, ni fyddai'r canllawiau hyn wedi bod yn bosibl.

Fe hoffai'r awduron diolch hefyd i Trudy Aspinwall, Teithio Ymlaen, Chris Johnson, Partneriaeth Cyfraith Gymunedol a Marc Willers QC, Siambrau Garden Court, a roddodd adolygiadau gan gymheiriaid arbenigol o ddrafft terfynol y canllawiau.

Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, ond cyfrifoldeb yr awduron yn unig yw cynnwys y cyhoeddiad hwn.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	5
Pennod 1: Cyflwyniad	6
Pennod 2: Ymchwiliad Lles: Rhan A.....	11
Pennod 3: Ymchwiliad Lles: Rhan B.....	12
Pennod 4: Sut i gynnal ymchwiliad lles da	15
Pennod 5: Cefnogi person a gafodd ei arestio	21
Pennod 6: Cysylltiadau defnyddiol a mwy o wybodaeth	23
Cyfeiriadau	25
Atodiad1. Cyfreithiau a pholisïau	27
Atodiad 2. Cysylltiadau teuluol.....	28
Atodiad 3. Arwyddion Diogelwch (Signs of Safety®)	31

Crynodeb Gweithredol

Mae Deddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd 2022 (Deddf yr Heddlu) wedi bod mewn grym ers 28^{ain} Mehefin 2022, gan greu trosedd newydd sy'n anelu at gynyddu pwerau troi allan yn sylweddol gan effeithio'n anghymesur ar gymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n byw ar wersyll diawdurdod. O fethu â chydabod bod gwerylloedd anawdurdodedig yn deillio o'r diffyg darpariaeth o leiniau digonol (parhaol, tramwy ac argyfwng) a methiant llawer o Awdurdodau Lleol i ymrwymo i gytundebau aros a drafodwyd, gallai'r camau a gymerir o dan Ddeddf yr Heddlu olygu bod bywydau 10,000 o deuluoedd sy'n byw ar wersylloedd diawdurdod yn cael eu gwneud hyd yn oed yn fwy agored i niwed.

Lle mae Deddf yr Heddlu yn cael ei defnyddio, mae'r Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu ystyried a oes ystyriaethau lles yn bodoli cyn i'r pwerau newydd gael eu gorfodi. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddull neu ffurf safonol y gallir eu defnyddio i lywio dull o ddeall pa ystyriaethau lles a all fodoli oherwydd weithrediad yr heddlu.

Nod y Canllawiau Arfer Da hyn yw darparu templed y gallir ei ddefnyddio gan swyddogion heddlu, swyddogion tai, swyddogion iechyd yr amgylchedd, swyddogion priffyrdd, swyddogion gorfodi cynllunio, wardeniaid Parc Cenedlaethol, eiriolwyr cymunedol, athrawon, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion cymorth cymunedol a phawb arall sy'n ymwneud â chefnogi teuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n byw mewn gwerylloedd diawdurdod. Fe'i cynlluniwyd i lywio dealltwriaeth well o ystyriaethau lles, fel y gallir ystyried yn llawn yr egwyddor o gyfiawnder cymesur.

Trwy gynhyrchu'r canllawiau hyn, rydym yn cydnabod bod ystyriaethau lles yn deillio o gamau a gymerwyd o dan Ddeddf yr Heddlu. Yn unol â'r ddyletswydd sydd wedi'i chynnwys yn Adran 103 Deddf Tai (Cymru) 2014, y gobaith yw y bydd nodi'r un peth yn amlygu'r angen a aseswyd am fwy o wersylloedd awdurdodedig a chefnogi Adolygiad Barnwrol ar y sail bod y pwerau newydd a gynhwysir yn Neddf yr Heddlu yn anghydnaws gyda'r Ddeddf Hawliau Dynol yng Nghymru a Lloegr.

Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Pennod 1: Cyflwyniad

Mae Deddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd 2022 (Deddf yr Heddlu) wedi bod mewn grym ers 28^{ain} Mehefin 2022, gan greu trosedd newydd o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 adrannau 60C i E.

Mae'r drosedd newydd hon yn cynyddu pwerau troi allan yn sylweddol ac mi fydd yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr. Er y dylai awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill (gan gynnwys yr heddlu) ystyried ystyriaethau lles cyn penderfynu defnyddio'r Ddeddf hon, mae'r dulliau a ddefnyddir i gyflawni'r ddyletswydd hon yn aml yn dameidiog. Felly, mae Cymdeithas Gwaith Cymdeithasol Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRTSWA) yn credu y bydd effaith lles y pwerau newydd hyn yn cael ei thanbriso'n fawr wrth i'r tralod a achosir gan achosion troi allan gael ei hanwybyddu, wrth i bwysigrwydd terfynau amser allweddol gael eu hanwybyddu a cholli'r cyfle i geisio her trwy Adolygiad Barnwrol.

Gan ymgorffori cyfreithiau a pholisïau cymdeithasol perthnasol o bob rhan o Brydain, mae'r Canllawiau Arfer Da hyn wedi'i hysgrifennu i gefnogi gweithredu dau dempled sgwrsio lles sydd gyda hwn. Mae'r ddau dempled hyn, Rhan A a Rhan B, wedi'u hysgrifennu gan y GRTSWA mewn partneriaeth â Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain a Phrifysgol Fetropolitan Manceinion i gefnogi sgwrsiau ystyrion gyda theuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n wynebu gweithrediad o dan Ddeddf yr Heddlu.

Nod y Canllawiau Arfer Da hyn yw rhoi cyflwyniad byr am y mathau o sgwrsiau a all arwain at ddealltwriaeth ddibynadwy a gwiriadwy o ystyriaethau lles sy'n deillio o gamau gweithredu gan yr heddlu. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon wedyn i gefnogi her gyfreithiol neu apêl yn erbyn Deddf yr Heddlu ar y sail bod y weithred o droi allan yn anghydnaws â'r Ddeddf Hawliau Dynol yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi'i ysgrifennu i gefnogi unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n gweithio i roi terfyn ar hiliaeth a gwahaniaethu ac i amddiffyn hawl cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr i ddilyn ffordd nomadig o fyw

Y Cyd-destun

Ers yr 16eg ganrif, defnyddiwyd deddfwriaeth i reoli traddodiadau ac arferion crwydrol cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n byw ym Mhrydain (Vanderbeck, 2005). Heddiw, mae'r cymunedau hyn yn profi diffyg cynyddol o fannau aros awdurdodedig, a methiant cyfreithiau cynllunio i ddarparu dull realistig i deuluoedd sefydlu eu

safleoedd eu hunain. Mae hyn yn golygu bod tua 10,000 o deuluoedd heb le diogel cyfreithiol i aros ym Mhrydain (Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr, 2020).

Heb unrhyw le cyfreithiol i aros, mae cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr yn cael eu gorfodi i fyw ar wersylloedd diawdurdod. Yma mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yn sefydlu gwerysloedd ar feysydd parcio, caeau chwarae neu ar ymyl y ffordd. Rhaid gwneud yn glir bod gwerysloedd diawdurdod yn digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r ddeddfwriaeth sy'n cyfyngu ar ryddid a datblygiad gwerysloedd awdurdodedig. I fod yn blaen, pe bai mwy o wersylloedd awdurdodedig, ni fyddai teuluoedd yn gorfod aros ar feysydd parcio, caeau chwarae neu ar ymyl y ffordd.

Mae'r diffyg gwerysloedd awdurdodedig hefyd yn effeithio ar draddodiadau diwylliannol. Er bod yr arfer o 'nomadiaeth' yn nodwedd warchoddedig i rai cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, mae'r ffordd y mae teuluoedd yn cael eu gorfodi i ddefnyddio gwerysloedd diawdurdod yn golygu y gall y rhai sy'n parhau i 'deithio' wynebu caledi sylweddol sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl a chorfforol, lles, addysg a chyflogaeth (Okely, 1997). Er gwaethaf y caledi hwn, mae llawer o deuluoedd yn parhau i fyw ar wersylloedd diawdurdod wrth iddynt geisio ymarfer eu diwylliannau a'u traddodiadau crwydrol (Comarty, 2019).

Mae effaith uniongyrchol cyfreithiau a basiwyd i reoli traddodiadau crwydrol ac arferion cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr yn golygu eu bod yn profi lefelau sylweddol o amddifadedd ac anghydraddoldeb. Mae llywodraeth Prydain eisoes wedi cydnabod y berthynas rhwng gwerysloedd diawdurdod a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd. Yn 2012, daeth Cymunedau a Llywodraeth Leol i'r casgliad:

“Gall Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd anawdurdodedig wynebu anawsterau ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg a gall natur ansicr eu cartrefi waethygu ymhellach anghydraddoldebau a mygu cyfleoedd bywyd.”

Gan bwysleisio gwir effaith 'mygu cyfleoedd byw, daeth yr adroddiad i'r casgliad bod cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr wedi profi rhai o'r canlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol gwaethaf o gymharu â'r holl grwpiau eraill (Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2012). Cefnogir y canfyddiad hwn gan nifer o astudiaethau eraill (Barry et al., 1987; Parry et al., 2004; Baker, 2005; Rose-Walker, 2008; Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2011; Senedd y DU, 2019; Allen a Hamnett, 2022) sy'n dangos anghydraddoldebau sylweddol mewn materion sy'n ymwneud ag addysg, iechyd a chyfiawnder cymdeithasol (gweler Blwch 1 isod).

39% o Sipsiwn a Theithwyr efo salwch hirdymor o gymharu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill.

Mae Teithwyr Gwyddelig 3 gwaith yn fwy tebygol o gael peswch cronig neu froncitis, hyd yn oed ar ôl ystyried ysmegu.

10 - 22% o Sipsiwn a Theithwyr wedi dweud bod asthma arnynt a 34% yn dweud bod ganddynt boen yn y frest o gymharu â 5% a 22% o'r boblogaeth gyffredinol.

Cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n darparu'r lefelau uchaf o ofal di-dâl o gymharu â grwpiau eraill.

Mae Sipsiwn a Theithwyr bron deirgwaith yn fwy tebygol o fod yn bryderus na'r cyfartaledd ac ychydig dros ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn isel eu hysbryd.

Mae Teithwyr Gwyddelig 3 gwaith yn fwy tebygol o farw trwy hunanladdiad na'r boblogaeth gyffredinol.

Mae mynychder gormodol o gam-esgor, genedigaethau marw a marwolaethau plant newydd-anedig mewn cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr a chyfraddau uchel o farwolaethau mamau yn ystod beichiogrwydd ac yn fuan ar ôl genedigaeth.

Mae mynychder uchel o achosion o ddiabetes wedi'u nodi mewn Cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr, a diffyg gwybodaeth gymunedol am y ffactorau risg.

Mae menywod o gymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr yn byw 12 mlynedd yn llai na menywod yn y boblogaeth gyffredinol a dynion 10 mlynedd yn llai, er bod ymchwil diweddar yn awgrymu y gallai'r bwlch disgwyliad oes fod yn llawer uwch.

Mae plant Sipsiwn a Theithwyr 3 gwaith yn fwy tebygol o gael eu cyfeirio at wasanaethau plant a theuluoedd a 3 gwaith yn fwy tebygol o fynd i ofal y wladwriaeth o gymharu â'r holl grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill.

Deddf yr Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd (2022)

Yn ogystal â'r caledi sydd eisoes yn wynebu cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr ym Mhrydain, mae Deddf yr Heddlu yn cyflawni ymrwymiad y Llywodraeth i gryfhau gallu'r heddlu i erlyn y rhai sy'n byw ar wersylloedd diawdurdod. Mae hyn yn cynnwys pŵer arestio newydd a phŵer i'r heddlu atafaelu cerbydau teuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr. Yn ôl y Swyddfa Gartref (2022a):

“Mae'r Ddeddf yn creu trosedd newydd o fyw gyda cherbyd ar dir heb ganiatâd. Bydd y drosedd newydd yn cael ei chyflawni pan fydd rhywun yn achosi difrod, aflonyddwch neu drallod sylweddol yn y cyflyrau a ddisgrifiwyd, ond wedi'i fframio yn y fath modd sy'n sicrhau nad yw hawliau'r rhai sy'n dymuno mwynhau cefn gwlad yn cael eu heffeithio”

Wrth grynhoi Deddf yr Heddlu, mae'r Swyddfa Gartref yn methu â chydabod bod problem gwerysilloedd diawdurdod yn deillio o ddiffyg darpariaeth o leiniau digonol, parhaol, tramwy neu frys, a methiant llawer o Awdurdodau Lleol i ymrwymo i gytundebau aros a drafodwyd. Cyflwynodd Deddf Meysydd Carafanau 1968 ddyletswydd i hwyluso darparu safleoedd ond diddymwyd y ddyletswydd honno gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

Trwy erlyn y rhai sy'n byw gyda cherbyd ar dir heb ganiatâd, mae Deddf yr Heddlu yn amlwg yn targedu Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n byw ar wersylloedd diawdurdod. Mewn perthynas â'r canrifoedd o ddeddfau a ddefnyddiwyd i reoli traddodiadau ac arferion crwydrol cymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr, mae Deddf yr Heddlu yn targedu pobl sydd wedi cael eu gorfodi i breswyllo ar dir heb ganiatâd oherwydd Deddfau cyfreithiol eraill sy'n atal datblygu gwerysilloedd awdurdodedig. I'r bobl hynny sy'n ceisio arfer eu diwylliannau a'u traddodiadau crwydrol, fel y'u gwarchodir gan y gyfraith, mae'r 'sefyllfa dim-ennill' gyfreithiol hon yn golygu y gallai'r 10,000 o deuluoedd nad oes ganddynt le diogel cyfreithiol i aros yno yng Nghymru a Lloegr gael eu gwneud hyd yn oed yn fwy agored i niwed cyn bo hir.

Fel y dengys Webb et al., (2021) a Bywaters et al., (2019), mae anghydraddoldebau mewn addysg, iechyd a chyfiawnder cymdeithasol yn cynyddu lle mae amddifadedd a diffyg cyfle. Drwy alluogi'r heddlu i arestio ac atafaelu cerbydau a chartrefi teuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n byw ar wersyll diawdurdod, credwn y bydd y pwerau a gynhwysir yn Neddf yr Heddlu yn lleihau cyfleoedd ac yn creu amddifadedd pellach i rai o'r grwpiau mwyaf ymylol ac agored i niwed ym Mhrydain. Mae'n hanfodol felly bod y rhai sy'n gweithio i gefnogi teuluoedd Sipsiwn, Dynion

Sioe a Theithwyr sy'n byw ar wersylloedd diawdurdod wedi'u paratoi'n well i ymdrin â'r effaith gysylltiedig y bydd gweithredu gan yr heddlu yn ei chael.

Pam fod angen ymateb?

Dylai prif uchelgais pawb sy'n cefnogi teuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n byw ar wersylloedd diawdurdod adlewyrchu'r angen i helpu i sicrhau eu lles a'u diogelwch trwy ddarparu mwy o wersylloedd awdurdodedig. Yn unol â'r ddyletswydd yn Adran 103 Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'n hanfodol bod yr angen a aseswyd am safleoedd yn gallu gwrthbwysu'r drosedd newydd a'r diwygiadau i droseddau presennol. Gan fod gwaith sydd ei angen i roi newid deddfwriaethol a pholisi cynllunio ar waith bellach yn cael ei fygwth gan Ddeddf yr Heddlu, mae angen gweithredu ar frys i sicrhau nad yw'r pŵer i arestio, a'r pŵer i'r heddlu atafaelu'r cerbydau, yn peryglu ymhellach iechyd, diogelwch a lles teuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr.

Fe ddylai awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill (gan gynnwys yr heddlu) ystyried ystyriaethau lles cyn penderfynu a ddylid troi allan gwrsyll teithwyr, gan fod canllawiau presennol y Llywodraeth ar wersylloedd diawdurdod (yng Nghymru a Lloegr) yn parhau yn eu lle. Yn ogystal, mae canllawiau statudol i'r Heddlu newydd gael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref ac mae canllawiau pellach gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi'u cyhoeddi. Bydd y canllawiau olaf yn arbennig o bwysig i'r rhai sy'n cynghori Sipsiwn a Theithwyr (Johnson, 2022).

Lle mae Deddf yr Heddlu yn cael ei defnyddio, mae'r Swyddfa Gartref (2022b: 12) yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu ystyried a oes ystyriaethau lles yn bodoli cyn i'r pŵer arestio newydd a'r pŵer i'r heddlu atafaelu cerbydau teuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr cael ei orfodi:

'Dylai'r heddlu sicrhau, yn unol â'u rhwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol ehangach, bod ymholiadau priodol am lesiant yn cael eu cynnal i benderfynu a oes anghenion dybryd yn cael eu cyflwyno gan y rhai ar wersylloedd diawdurdod a, lle bo angen, bod yr asiantaethau priodol (gan gynnwys Awdurdodau Lleol yn cymryd rhan cyn gynted â phosibl. Os oes angen, gallai camau gorfodi yn erbyn y rhai ar y gwrsyll diawdurdod gael eu gohirio tra bo anghenion lles brys yn cael sylw'

Er gwaethaf y canllawiau statudol hyn, gwyddom nad yw awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill (gan gynnwys yr heddlu) yn holi am y materion hyn fel mater o drefn, nac yn gohirio camau gorfodi nes bod ymchwiliad lles wedi'i gynnal. Nid yw'r rhan fwyaf o'r ffurflenni presennol y gellid eu defnyddio i arwain a llywio ymholiad lles yn addas ar gyfer ymarfer, ac nid oes unrhyw ganllawiau arfer da yn bodoli lle y gellid eu defnyddio i ddeall y ffordd orau o gydlynu ymholiad lles llawn a chywir.

Felly mae angen fframwaith sgwrsio generig i alluogi'r heddlu, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i fodloni'r gofyniad a osodwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw cyngor byr y Swyddfa Gartref (2022b) ar ddeall materion lles yn mynd yn ddigon pell. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldeb yn llawn, i leihau cydraddoldeb ehangach ac i hyrwyddo rhwymedigaethau hawliau dynol, mae'n rhaid i'r heddlu ddeall hefyd sut y gall y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf yr Heddlu eu hunain achosi ystyriaeth lles brys (Willers a Jonson, 2020).

Pennod 2: Ymchwiliad Lles: Rhan A

Er mwyn helpu i ddeall rhai o'r ystyriaethau lles a achosir gan Ddeddf yr Heddlu, rydym wedi dylunio templed y gellir ei ddefnyddio gan swyddogion tai, swyddogion iechyd yr amgylchedd, swyddogion priffyrdd, swyddogion gorfodi cynllunio, wardeniaid y Parc Cenedlaethol, eiriolwyr cymunedol, athrawon, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion cymorth cymunedol a phawb arall sy'n ymwneud â chefnogi teuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n byw ar wersyll diawdurdod.

Gellir defnyddio'r ffurflen 'Ymholiad Lles: Rhan A' sy'n cyd-fynd â'r Canllawiau Arfer Da hyn ar unrhyw achlysur i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol am sut mae camau a gymerir o dan Ddeddf yr Heddlu yn effeithio ar fywyd teuluol. Hyd yn oed os yw'r teulu'n bwriadu symud ymlaen, mae Rhan A wedi'i dylunio i helpu awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall i gynnal ymholiadau lles a datblygu gwell dealltwriaeth o'r rhesymau pam mae teulu'n byw ar wersyll diawdurdod. Yna, lle bynnag y bo modd, gall y wybodaeth hon gael ei defnyddio gan yr awdurdod lleol a chyrrff cyhoeddus eraill (gan gynnwys yr heddlu) i asesu a chynllunio darpariaeth llety arall i gefnogi asesiad llety mwy ffurfiol. Hyd yn oed os yw'r teulu wedi nodi eu bwriad i symud ymlaen ar ôl gweithredu Deddf yr Heddlu, dylid eu cyfeirio at y gwasanaethau a restrir ar dudalen 19 o hyd.

Gan fod ymholiadau lles yn aml yn cael eu hanwybyddu, rydym yn annog awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i fabwysiadu'r ffurflen 'Ymchwiliad Lles: Rhan A', ynghyd â'r Canllawiau Arfer Da hyn, wrth ddatblygu eu polisi ysgrifenedig eu hunain ar gyfer rheoli gwersylloedd diawdurdod a chyflawni ymholiadau lles hanfodol.. Byddai GRTSWA yn croesawu trafodaethau gydag awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus sy'n dymuno mabwysiadu'r model hwn.

Os penderfynir, wrth gwblhau Rhan A, y bydd camau a gymerwyd o dan Ddeddf yr Heddlu yn achosi ystyriaethau lles sylweddol, mae'r ffurflen Rhan B wedi'i dylunio i gefnogi sgwrs fanylach. Gyda chaniatâd yr unigolyn, dylai'r wybodaeth ychwanegol a roddir yn Rhan B wedyn yn cael ei ddwyn i sylw'r awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall. Lle bo'n bosibl, ac eto gyda chaniatâd, dylai'r ystyriaethau lles a nodir yn Rhan B hefyd cael eu trosglwyddo i sefydliad Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr fel y gellir rhoi cyngor cyfreithiol am ddim. Mae'r rhestr o sefydliadau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr hefyd wedi'i rhestru ar dudalen 19 o'r canllawiau hyn.

Pennod 3: Ymchwiliad Lles: Rhan B

Cafodd ffurflen 'Ymholiad Lles: Rhan B' ei ddiweddarau trwy'r concordatiau polisi ac ymchwil allweddol a restrir yn Atodiad 1. Fel Rhan A, gellir defnyddio Rhan B gan unrhyw un sydd â'r cyfrifoldeb neu'r cyfle i ganfod problemau sy'n dod i'r amlwg ac ystyriaethau lles posibl sy'n deillio o gamau a gymerwyd o dan Ddeddf yr Heddlu. Yn wahanol i Ran A, mae Rhan B wedi'i chreu i alluogi adnabyddiaeth lawnach a chyson o ystyriaethau lles sy'n dod i'r amlwg.

Pryd bynnag y defnyddir y ffurflen 'Ymholiad Lles: Rhan B', y diben bob amser yw casglu gwybodaeth y gellir ei gwirio (Gweler Blwch 2).

Blwch 2: Pwrpas ffurflen Rhan B

Yn ogystal â Rhan A, cafodd ffurflen Rhan B ei ddylunio i'ch galluogi i:

- Casglu gwybodaeth bwysig am unigolyn, plentyn a chymuned.
- Dadansoddi anghenion ac / neu natur unrhyw ystyriaethau lles.
- Penderfynu a fydd y camau a gymerwyd o dan Ddeddf yr Heddlu yn creu ystyriaethau lles ychwanegol, gan dorri cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol.
- Nodi'r gefnogaeth sydd ei angen i fynd i'r afael a'r anghenion hynny er mwyn diogelu lles a, lle bo angen, sicrhau bod yr unigolyn neu'r gymuned yn ddiogel.

Trwy gydol sgwrs effaith lles sy'n cael ei harwain gan y ffurflen Rhan B, dylai casgliadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Dylai fod gwybodaeth glir am y camau sydd i'w cymryd a'r gwasanaethau sydd i'w darparu i atal ystyriaethau lles rhag codi i bwynt o argyfwng. Dylai'r person sy'n arwain y drafodaeth roi cymorth i'r unigolyn, y teulu a'r gymuned, ac fe ddylai weithredu fel eiriolwr a chydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth a nodwyd.

Mae cwblhau Rhan B yn debygol o fod yn gymhleth ac yn gofyn am wybodaeth a gwerthoedd ymarferydd medrus a phrofiadol. Ym mhob achos, dylid gofyn i feddyg teulu, gweithiwr cymorth teulu, nyrs ysgol, gweithiwr cymdeithasol, athro, eiriolwr cymunedol, ymwelydd iechyd a / neu gydlynnydd anghenion addysgol arbennig neu arweinydd crefyddol, neu rywun arall sydd â phrofiad o weithio gyda chymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr am gymorth i'w gwblhau'n llawn.

Cafodd ffurflen Rhan B ei ddylunio i'w defnyddio gyda chytundeb yr unigolyn, y teulu a'r gymuned, gan gynnwys y plentyn a'r teulu yn ogystal â'r holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda nhw. Fe ddylai ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn lle bynnag y bo'n bosibl – ei oedran, yr amgylchiadau teuluol a'r cyd-destun cymunedol ehangach y maent yn byw ynddo. Dylai'r rhai sy'n cwblhau'r ymholiad lles hysbysu unigolion y bydd eu data'n cael ei gofnodi a'i rannu, a'r diben hyn yn cael ei egluro iddynt. Os ystyrir ar unrhyw adeg y gallai unrhyw blentyn fod mewn angen, neu ei fod wedi dioddef niwed sylweddol neu'n debygol o ddioddef niwed, dylid gwneud cyfeiriad ar unwaith i ofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol. Gall unrhyw un wneud y cyfeiriad hwn.

Pennod 4: Sut i gynnal ymchwiliad lles da

Dylai'r sgysiau lles ac effaith sydd eu hangen i gwblhau Rhan A a Rhan B fod yn ddigon deinamig i ddadansoddi ac ymateb i'r newid yn natur a lefel yr angen a / neu'r risg a wynebir gan yr unigolyn, y teulu a'r gymuned. Mae'n bwysig bod effaith yr hyn sy'n digwydd oherwydd Deddf yr Heddlu yn cael ei nodi'n glir a bod gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei chofnodi a'i gwirio'n systematig, a'i thrafod gyda'r unigolyn, y teulu a'r gymuned i wirio cywirdeb.

Mae sgysiau da yn cynorthwyo dealltwriaeth o'r ystyriaethau lles sy'n gysylltiedig ag unrhyw gamau a gymerir o dan Ddeddf yr Heddlu. Mae'n bosibl felly y bydd angen dealltwriaeth o anghenion cymorth rhieni, gofalwyr, gofalwyr nad ydynt yn rhieni, ac oedolion o fewn y gymuned deuluol a hŷn. Am y rheswm hwn, ymholiadau lles o ansawdd uchel yw:

Canolbwyntio ar y person. Dylai pob penderfyniad gael ei wneud er lles gorau'r unigolyn, y teulu neu'r gymuned gyda gwybodaeth a'i gofnodi fel tystiolaeth.

- **Canolbwyntio ar weithredu a chanlyniadau.** Dylai pob penderfyniad gael ei gynllunio i leihau neu finimeiddio ystyriaethau lles a grëir gan Ddeddf yr Heddlu
- **Dull cyfannol.** Mynd i'r afael ag anghenion a lles yr unigolyn, y teulu neu'r gymuned.
- **Canolbwyntio ar gyfleoedd cyfartal.** Yn seiliedig ar ac yn cynnwys deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Y gallu i gynnwys plant. Sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed a bod cefnogaeth briodol ar gael i alluogi hyn pan fo gan y plentyn anghenion cyfathrebu penodol.

- **Y gallu i adnabod risgiau.** Rhaid sefydlu diogelwch a lles y plant, teulu a chymuned.

Y gallu i adeiladu ar gryfderau yn ogystal ag adnabod anawsterau. Mae'r unigolyn, y teulu a'r gymuned yn debygol o fod dan bwysau aruthrol oherwydd Deddf yr Heddlu. Yn ogystal, efallai bydd ganddynt hwy wydwnch sylweddol a strategaethau ymdopi hefyd.

Canolbwyntio ar weithredu cadarnhaol. Ceisiwch restru'r camau gweithredu sydd eu hangen gan gynnwys darparu gwasanaethau.

Tryloyw. Oherwydd hiliaeth systemig a gyfundrefnol, bydd unrhyw asesiad o effaith lles Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr trwy'r pwerau newydd a ganiateir yn Neddf yr Heddlu yn debyg o gael ei gwestiynu gan awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill ac yn agored i gael ei herio. Mae'n hanfodol felly bod cofnod y sgwrs yn cynnwys gwybodaeth onest, gredadwy, y gellir ei brofi ac y gellir ei wirio yn unig.

Ataliol. Fel y pwysleisiwyd gan McAlister (2022), yn yr adolygiad o ofal cymdeithasol plant a gomisiynwyd gan y llywodraeth, yr hyn sydd ei angen ar hyn o bryd yw newid y diwylliant o fynd â phlant i ofal y wladwriaeth. Mae mabwysiadu'r Canllawiau Arfer Da hyn, a'r Templed Sgyrsiau cysylltiedig, yn cyd-fynd â'r argymhelliad hwn a deddfwriaeth lles perthnasol ar draws gwasanaethau oedolion a phlant.

Mae'r GRTSWA yn hyderus mai dull systemig o gwblhau Rhan A a Rhan B yw'r ffordd orau o ddarparu golwg gynhwysfawr ar ystyriaethau lles.

Er mwyn helpu i gwblhau'r gwaith, mae modelau amrywiol eisoes wedi'u cynnwys yn ffurflen Rhan B. Bwriad Rhan B yw rhoi cyfle i ystyried anghenion generig yr unigolyn, y teulu a'r gymuned, er mwyn galluogi sgwrs sensitif a all rymuso a galluogi'r rhai sy'n wynebu gweithredu o dan Ddeddf yr Heddlu. Mae rhai modelau eraill i gefnogi cwblhau'r ddwy ffurflen sy'n cyd-fynd â'r canllawiau hyn i'w gweld yn Atodiadau 2 a 3.

Sgwrs sensitif

Mae'n bwysig cydnabod bod unrhyw sgwrs am effaith lles Deddf yr Heddlu yn debygol o ddod ar adeg pan fo'r unigolyn, y teulu a'r gymuned yn profi llawer iawn o drallod a phryder. Gallai'r cwestiynau a gyflwynir yn Rhan A a Rhan B hefyd ymddangos i fod yn anarferol i'r rhai nad ydynt wedi arfer siarad am yr anawsterau, trallod a phryder y maent yn eu profi.

Dylai pwrpas y sgwrs sydd ei hangen i ddeall effaith lles Deddf yr Heddlu ymwneud yn bennaf â chefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau sydd mewn perygl o fod yn droseddwy, neu eu troi allan. Fodd bynnag, prif nod y sgwrs yw galluogi pobl i oresgyn ystyriaethau lles drwy ymateb i gamau a all wadu'r hawliau a'r breintiau y mae llawer o bobl eraill yn eu cymryd yn ganiataol. Trwy deilwra'r sgwrs i adlewyrchu'r berthynas rhwng unigolion a'u hamgylchedd, dylai pwrpas y drafodaeth adlewyrchu dull sy'n seiliedig ar berthynas.

Adeiladu perthynas

Mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi'u dehongli gan Gyfeillion Teuluoedd a Theithwyr a Phartneriaeth Cyfraith Gymunedol, dau sefydliad sy'n arbenigo mewn cefnogi Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr. Fodd bynnag, mae'r sylw anghyfartal a roddir i ganllawiau ar sut i gynnal ymholiad lles wedi creu gwahaniaeth yn y wybodaeth, y gwerthoedd a'r sgiliau y gall fod eu hangen i ddangos dull o nodi ystyriaethau effaith lles. Yn benodol, o fewn y darlun sy'n cael ei greu gan y gynrychiolaeth ystrydebol o deuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n byw ar wersylloedd diawdurdod, mae delwedd yn dod i'r amlwg o grŵp cyfan o unigolion, teuluoedd a chymunedau di-rym sy'n aros am rywun a all gynrychioli eu safbwyntiau a'u harwain i fywyd gwell. Nid yn unig yw'r ddelwedd hon yn nawddoglyd, ond mae hefyd yn anghywir. Mae'n cymryd yn ganiataol nad oes gan unigolion, teuluoedd a chymunedau'r adnoddau, y gallu, y cyfalaf a'r pŵer i helpu eu hunain.

Er ei bod yn bwysig i gydnabod y bydd llawer o'r bobl sy'n wynebu camau gweithredu o dan Ddeddf yr Heddlu yn profi ymdeimlad dwfn o ddiffyg grym, mae hefyd yn bwysig i gydnabod bod gan yr ymdeimlad dwfn hwn o ddiffyg pŵer achos, a waethygir yn aml gan derfynau amser llym sy'n gysylltiedig â rhybudd troi allan.

I rai, mae diffyg grym yn deillio o amddifadedd economaidd cymdeithasol, ymleiddio, stigmatiddio, a diffyg gwasanaethau cymorth. I eraill, mae diffyg grym yn deillio o ymdeimlad o ansicrwydd, diffyg cyfle, anghyfiawnder cymdeithasol, diffyg gwersylloedd awdurdodedig neu dros dro a system gymdeithasol annheg. Ym mhob achos, mae'r grefft o gefnogi unigolion, teuluoedd, a chymunedau i reoli a goresgyn achos sylfaenol eu diffyg grym yn ganolog i'r cynsail o rymuso a galluogi.

Grymuso a galluogi

Mae'r ddau derm, grymuso a galluogi, yn gofyn i chi gydnabod nad chi yw'r arbenigwr ym mywydau'r bobl yr ydych yn ceisio'u cynrychioli. Yn hytrach, fe ddylech geisio defnyddio'ch sgiliau i gefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i ddod yn ddigon cryf i ddylanwadu a newid y digwyddiadau a'r systemau sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain.

Mae nod grymuso yn dibynnu ar eich gallu i hwyluso cyfleoedd i bobl ennill sgiliau a gwybodaeth. Galluogi yw eich gallu i gefnogi pobl i arfer eu grym eu hunain i ddylanwadu ar newid yn eu bywydau ac ym mywydau'r rhai y maent yn poeni amdanynt.

Mae strategaeth bwysig sydd wedi'i hanelu at hyrwyddo newid cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i chi rymuso pobl i ddod yn adnodd eu hunain wrth reoli a gwella eu bywydau eu hunain. Unwaith y byddwch yn trosglwyddo'r grym hwn, rydych yn gweithio i gefnogi galluogi drwy nodi cyfleoedd i adeiladu ar gryfderau unigol, tra, ar yr un pryd, yn darparu'r modd, y gallu a'r cyfleoedd i bobl oresgyn yr heriau y maent yn eu hwynebu.

Mae unigolion, teuluoedd a chymunedau sydd wedi cael cymorth grymusol a galluogi yn elwa drwy wella hunan effeithiolrwydd gan arwain at well canlyniadau cymdeithasol ac ansawdd bywyd. Os gallwch chi hwyluso grymuso a galluogi trwy ymarfer sy'n seiliedig ar berthynas, efallai y bydd gennych chithau hefyd ymdeimlad o gyflawniad, hyder a boddhad gwell o'ch swydd wrth i chi ddechrau gwneud synnwyr o'r ystod lawn o anghydraddoldebau sy'n bodoli.

Cyngor i unrhyw un sy'n cynnal ymholiad lles

Mae'r GRTSWA yn cefnogi'r ddyletswydd i ddiwallu'r angen a aseswyd am safleoedd o dan Adran 103 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel bod teuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr yn gallu cael mynediad at le cyfreithlon i osod eu cerbydau a chael llety diogel o safon gyda mynediad at gyfleusterau, iechyd, addysg, a gwaith wrth fyw mewn grwpiau teuluol estynedig traddodiadol. Mae'r GRTSWA hefyd yn cefnogi'r egwyddor bod llety diogel a darparu safleoedd yn angenrheidiol 'i ddarparu llwybr i Sipsiwn a Theithwyr gynnal ffordd grwydrol o fyw', hawl sydd wedi'i hymgorffori yn Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Wrth gynnal ymholiad lles, gallwch helpu'r GRTSWA i sicrhau'r hawliau hyn drwy:

- **Cofio bod pobl yn ddynol.** Cymryd cyfrifoldeb personol am weithio mewn modd tosturiol, empathig, dyneiddiol, creadigol a gwrth-hiliol.
- **Bod yn onest.** Byddwch yn agored, yn dryloyw ac yn onest ym mhob un o'ch rhyngweithiadau. Cymerwch amser i egluro eich rôl, atebwch gwestiynau a disgrifiwch yn ofalus y rheswm am yr hyn rydych yn ei wneud. Peidiwch ag addo y gallwch rwystro'r cam o droi allan a byddwch yn onest ynghylch beth allai canlyniad y sgwrs lles fod.

- **Modelu rôl.** Cymerwch gyfrifoldeb personol i sicrhau eich bod yn ymarfer yn unol â gofynion cyfraith cydraddoldeb, eich corff rheoleiddio (os yw'n berthnasol), cod moeseg a dangos parch at ddiwylliant, cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- **Peidio â beio.** Cydnabod nad yw'r heriau a brofir gan unigolion, teuluoedd a chymunedau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr yn cael eu priodoli i ddewis ffordd o fyw, ond yn hytrach mae eu sefyllfa'n adlewyrchu safle gorthrymedig o fewn cymdeithas a ategir gan gyfraith sy'n gweithio yn erbyn y gymuned hon o bobl.
- **Gwrando a bod yn gynhwysol.** Sicrhau bod unigolion, teuluoedd a chymunedau yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o'r sgwrs effaith lles, gan fod yn sensitif i'r angen i barchu cyfrinachedd fel a lle bo'n briodol.
- **Bod yn eiriolwr.** Cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau a sicrhau bod eu hawliau bob amser yn cael eu cynnal tra bod yn ymwybodol o'r angen i barchu preifatrwydd a chyfrinachedd pobl.
- **Hybu cryfderau.** Gwerthfawrogi pwysigrwydd systemau teuluol a chymunedol a gweithio mewn partneriaeth â phobl i nodi a rheoli asedau'r systemau hynny.
- **Cydweithio.** Cefnogi unigolion, teuluoedd a chymunedau i gydweithio i gyflawni nod cyffredin.
- **Hwyluso newid.** Cymhwyswch eich gwybodaeth a'ch sgiliau i wella ansawdd bywyd a lles i fod yn gyfrwng am newid.
- **Herio eich hun ac eraill.** Defnyddiwch fodelau o ymarfer myfyriol ac atblygol. Nodwch unrhyw ymddygiad gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r troi allan a allai achosi pryder a chodwch bryderon am ddrwgweithredoedd sefydliadol a diwylliannau o arfer amhriodol ac anniogel.

- **Cadwch eich hun yn ddiogel.** Gall rhai gweryslyoedd diawdurdod fod yn lleoedd prysur a gall tensiynau fod yn uchel. Cydymffurfiwch â pholisi gweithio'n unigol eich asiantaeth a gofynnwch am adolygiad ohono os nad yw'n cynnwys gweryslyoedd diawdurdod.
- **Adrodd yn ôl.** Chwiliwch am gyfleoedd rheolaidd a ffurfiol i adrodd yn ôl i gydweithiwr trwy oruchwyliaeth wedi'i threfnu neu weithgareddau tebyg.

Pennod 5: Cefnogi person a gafodd ei arestio

Os na fydd yr heddlu'n cytuno i dynnu'r rhybudd yn ôl erbyn y dyddiad cau, bydd Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr (FFT), Elusen sy'n gweithio i roi terfyn ar hiliaeth a gwahaniaethu yn erbyn Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr ac i amddiffyn yr hawl i ddilyn ffordd grwydrol o fyw, eglurwch y gallai fod yn well pe bai'r unigolyn, y teulu a'r gymuned yn gadael y tir i osgoi cael eu harestio ac i'w cerbydau cael eu atafaelu.

O ystyried y terfynau amser byr iawn sy'n debygol o fod mewn grym, gall fod yn anodd iawn i atal y troi allan oni bai bod ystyriaethau lles difrifol yn bodoli, ond nid yw hynny'n golygu y dylid rhoi'r gorau i'r cyfle am eiriolaeth ac egwyddorion arfer da. Fel yr eglura FFT, hyd yn oed os oes rhaid i'r unigolyn, y teulu neu'r gymuned adael y tir mewn ymateb i rybudd, efallai y bydd yn bosibl o hyd i gyflwyno her a'i gwneud yn glir sut mae'r camau a gymerwyd o dan Ddeddf yr Heddlu wedi achosi risg sylweddol i les. .

Os bydd risg sylweddol i les yn atal unigolyn, teulu neu gymuned rhag gadael y tir, efallai y cânt eu harestio, a gall eu cerbydau gael eu hatafael. Am y rheswm hwn y mae ffurflen Rhan B yn arwyddocaol iawn.

Defnyddio ffurflen Rhan B i amlygu ystyriaethau lles.

I ddyfarnu unigolyn yn euog o drosedd o dan Ddeddf yr Heddlu, bydd yn angenrheidiol i'r heddlu fynd â'r mater i'r Llys. Fodd bynnag, un broblem y mae'r Bartneriaeth Cyfraith Gymunedol yn ei rhagweld yw y gallai fod yn annhebygol iawn y bydd y camau a gymerir o dan Ddeddf yr Heddlu yn cael eu dwyn i'r Llys. Os cyrhaeddir y terfyn amser perthnasol a nodir yn y rhybudd, bydd y teuluoedd dan sylw (yn ddealladwy) yn gadael y safle oherwydd fel arall maent mewn perygl o gael eu harestio a'u cerbydau'n cael eu hatafael (y gellir cymryd camau gweithredu cyn cael Gorchymyn Llys). Am y rheswm hwn, mae'r Bartneriaeth Cyfraith Gymunedol yn credu na fydd y mater yn cyrraedd y Llys am drafodaeth o'r materion amrywiol sydd i'w trafod.

Er gwaethaf yr amgylchiadau hyn, efallai ei bod yn bwysig ceisio annog teuluoedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr sy'n gorfod gadael tir i geisio her drwy Adolygiad Barnwrol. Yma gallant herio penderfyniad yr Heddlu ac / neu'r Awdurdod Lleol lle teimlir bod y camau gweithredu wedi'u cyflawni'n anghyfreithlon neu lle mae'n

bwysig ceisio arweiniad pellach gan y llysoedd ynghylch a sut mae'r drosedd hon (a'r diwygiadau i'r troseddau presennol) i gael eu trin ar y tir. I gael trafodaeth lawn ar y mater hwn, gweler y pecyn hyfforddi gwych gan Ffrindiau, Teuluoedd a Theithwyr. Os yw teulu'n dymuno ceisio herio trwy Adolygiad Barnwrol, gall y ffurflen Rhan B sydd gyda'r canllawiau hyn roi tystiolaeth hanfodol y gellid ei defnyddio i herio penderfyniad yr Heddlu ac / neu'r Awdurdod Lleol.

Os caiff person ei arestio, a'i gerbyd yn cael ei atafaelu, mae'n hanfodol eu bod yn ceisio cyngor arbenigol mewn perthynas ag unrhyw honiad a wneir yn ei erbyn. Gorau po gyntaf y gwneir hyn. Ni ddylai presenoldeb ystyriaeth les sylweddol atal cais am gyngor cyfreithiol i sicrhau nad oes unrhyw gamweinyddiad cyfiawnder.

Cefnogaeth i'r rhai a gafodd eu harestio

Mae'r Cynllun Amddiffynwyr Cyhoeddus a Chymdeithas Cyfreithwyr y Gyfraith Droseddol yn sefydliadau a argymhellir sy'n darparu cyngor cyfreithiol am ddim i unrhyw un sy'n mynychu gorsaf heddlu am gyfweiliad o dan y cynllun cymorth cyfreithiol beth bynnag fo'r modd. Ar gyfer unrhyw un dan 18 oed sy'n cael ei arestio, mae'r Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol (NAAN) yn cael ei argymhell fel sefydliad sy'n gweithio i sicrhau bod eu lles yn cael ei ddiogelu'n effeithiol gan oedolyn priodol.

Pennod 6: Cysylltiadau defnyddiol a mwy o wybodaeth

Gellir dwyn her gyfreithiol gyffredinol yn erbyn Deddf yr Heddlu ar y sail ei bod yn anghydnaws â'r Ddeddf Hawliau Dynol gan ei bod yn codi ystyriaethau lles sylweddol. Efallai y bydd heriau penodol yn bosibl o ran achosion unigol o droi allan, hyd yn oed o bosibl ar ôl i'r Sipsiwn a Theithwyr dan sylw adael y tir dan sylw.

Mae'n anochel y bydd unrhyw her gyffredinol (yn hytrach na heriau penodol mewn achosion unigol o droi allan) yn cymryd peth amser i symud ymlaen ac ni fydd yn cynnig ateb cyflym i'r sefyllfa sy'n digwydd.

Os ydych angen cynrychiolaeth gyfreithiol i herio troi allan gallwch alw ar unrhyw un o'r sefydliadau canlynol:

- **Mae Tîm Cyngor i Deithwyr yn y Bartneriaeth Cyfraith Gymunedol (CLP) yn gweithredu llinell gymorth, sydd ar gael ar 0121 685 8677 rhwng 9am ag 1pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.**
- **Mae Sipsiwn a Theithwyr Cymru yn gweithredu llinell gymorth, sydd ar gael ar 0292 021 4411 rhwng 10am a 2pm o ddydd Llun i ddydd Iau**
- **Mae Cyfeillion Teuluoedd a Theithwyr yn gweithredu llinell gymorth, sydd ar gael ar 01273 234 777 rhwng 10am a 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc.**
- **Mae Sipsiwn a Theithwyr Llundain yn gweithredu llinell gymorth sydd ar gael ar 0208 533 2002 rhwng 10am a 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc.**
- **Mae Grŵp Cyswllt Swydd Derby yn gweithredu llinell gymorth sydd ar gael ar 07799443830 rhwng 10am a 2pm ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc.**
- **Mae Teithio Ymlaen (Travelling Ahead) yn gweithredu llinell gymorth sydd ar gael ar 08088020025 rhwng 10am a 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc.**
- **Mae Drive2Survive yn gweithredu llinell gymorth sydd ar gael ar 07903 198 022 neu 07840 979 302 rhwng 9am a 1pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.**

- Mae Shelter yn gweithredu llinell gymorth sydd ar gael ar 0808 800 4444 (Lloegr) 08000 495495 (Cymru) rhwng 8am ag 8pm. Rhadffôn.
- Mae Showman's Guild yn gweithredu llinell gymorth sydd ar gael ar 01784 461805 rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Bydd angen i sefydliadau Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr wybod beth sy'n digwydd ym mhob achos a dylai'r Templed Sgwrsio effaith lles a ddyluniwyd gennym fod o help i roi dealltwriaeth gynhwysfawr am y sefyllfa.

Dylid trosglwyddo gwybodaeth am achosion o droi allan sy'n digwydd, yn enwedig o dan Ddeddf yr Heddlu, i un o'r sefydliadau a restrir uchod.

Dogfennau polisi defnyddiol

Johnson, C. (2022) Deall pwerau troi allan (Understanding eviction powers): Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022 a'r effaith ar nomadiaeth. Cynhyrchwyd ar gyfer Cyfeillion, Teuluoedd a Theithwyr. Cefnogir gan Sefydliad Baring. <https://gypsy-traveller.org/police-act-full-guide/>

(2022) Canllawiau Byr ar y Ddeddf Plismona: (A Short Guide to the Policing Act): Beth mae'n ei olygu i wersylloedd Sipsiwn, Dynion Sioe a Theithwyr. [Police-Act-Booklet.pdf \(gypsy-traveller.org\)](#)

Llywodraeth Cymru. (2018) Cynllun galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr. [Enabling Gypsies, Roma and Travellers plan | GOV.WALES](#)

Dulliau esblygol o ddeall ystyriaethau lles

Wrth i'n dealltwriaeth o'r ystyriaethau lles addasu, felly hefyd bydd y Templed Sgwrsio a'r Canllawiau Arfer Da yr ydym wedi'u cynllunio. Os ydych yn defnyddio ein Templed Sgwrs Lles ac Effaith Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd, byddwn yn croesawu eich adborth a'ch argymhellion ar gyfer ei gwella. Mae'r fersiwn diweddaraf o'r ffurflenni a'r dogfennau hyn i'w gweld ar dudalen Grŵp Diddordeb Arbennig Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar wefan BASW.

Cyfeiriadau

Allen, D., & Hamnett, V. (2022) Gypsy, Roma and Traveller children in child welfare services in England, *The British Journal of Social Work*, 10 (1), pp, 1-19.

Baker, M, (2005) Leeds Baseline Census 2004-2005 Gypsies and Travellers. Leeds: Leeds Racial Equality Council.

Barry J, Herity B, Solan J. (1987) *The Travellers' health status study, vital statistics of travelling people*, Dublin: Health Research Board.

Bywaters, P., Scourfield, J., Webb, C., Morris, K., Featherstone, B., Brady, G. Jones, C. and Sparks, T. Paradoxical evidence on ethnic inequities in child welfare: towards a research agenda. *Child and Youth Services Review* 96: 145-154.

Comarty, H. (2019) *Gypsies and Travellers*, House of Commons Library, available online at:
<https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-8083/>
(accessed February 25, 2022).

Communities and Local Government. (2012) *Progress report by the ministerial working group on tackling inequalities experienced by Gypsies and Travellers* (publishing.service.gov.uk).

Friends, Families and Travellers. (2020) *COVID-19: UK Government must lay out clear plan to support Gypsies, Travellers and Boaters - Friends, Families and Travellers* (gypsy-traveller.org)

Home Office (2022a) *Unauthorised encampments: Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022 factsheet* - GOV.UK (www.gov.uk).

Home Office (2022b) *Statutory Guidance for Police on Unauthorised Encampments: a summary of available powers*. Her Majesty's Stationery Office: London

Johnson, C. (2022) *Understanding eviction powers: the Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022 and the impact on nomadism*. Produced for Friends, Families and Travellers. Supported by Baring Foundation. [Police Act: What you need know - Friends, Families and Travellers](http://www.gypsy-traveller.org) (gypsy-traveller.org)

Office for National Statistics (2013) [ARCHIVED CONTENT] 2011 Census Analysis, Ethnic variations in general health and unpaid care provision - ONS (nationalarchives.gov.uk).

Okely, J. (1997) 'Non-territorial culture as the rationale for the assimilation of Gypsy children. *Childhood*, 4(1), pp. 63–80.

Parry, G. et al. (2004): *The Health Status of Gypsies and Travellers: Report of Department of Health Inequalities in Health Research Initiative University of Sheffield, Sheffield.*

Power, C. (2004) *Room to Roam*, available online at: <https://www.gypsy-traveller.org/pdfs/RoomtoRoam.pdf> (accessed on March 7, 2022).

Rose-Walker, M (2008): *Suicide Among the Irish Traveller Community 2000-2006*. Wicklow County Council.

Turnell, A. (2012). *Signs of Safety Comprehensive Briefing Paper - Signs of Safety Knowledge Bank*.

UK Parliament. (2019) *Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities*, available online at: <https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmwomeq/360/report-files/36002.htm> (accessed March 3, 2022).

Vanderbeck, R. M. (2005) 'Anti-nomadism, institutions and the geographies of childhood', *Society and Space*, 23, pp. 71–94.

Webb, C. J. R., Bywaters, P., Elliott, M. and Scourfield, J. (2021) 'Income inequality and child welfare interventions in England and Wales', *Journal of Epidemiology and Community Health*, 75(3), pp. 251–7.

Willers, M., & Johnson, C. (2020) *Gypsy and Traveller Law: 3rd Edition*, Legal Action Group: London.

Atodiad 1. Cyfreithiau a pholisiau sy'n cefnogi'r Canllawiau Arfer Da hwn

Mae'r templed sy'n cyd-fynd â'r canllawiau hyn wedi'u llywio gan y concordatiau polisi ac ymchwil allweddol a ganlyn:

- Deddf Plant 1989.
- Deddf Gofal 2014.
- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005.
- Deddf Iechyd Meddwl 1983.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Deddf Hawliau Dynol 1998.
- Deddf Diogelu Data 2018.
- 2018 Cydweithio i Ddiogelu Plant – Canllawiau Statudol.
- Turnell, A. ag Edwards, S. (1999). Arwyddion Diogelwch: Dull sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch – datrys mewn gwaith achos amddiffyn plant, Efrog Newydd: WW Norton.
- 2002 Yr Adran Iechyd - Fframwaith yr Aseiad Cyffredin i Blant a Theuluoedd mewn Angen
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant a Phobl Ifanc 1989
- Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.
- Cyfraith a pholisi digartrefedd.

Atodiad 2. Cysylltiadau teuluol

Weithiau, werth drafod ystyriaethau lles sy'n deillio o bwerau newydd Deddf yr Heddlu, mae'n bwysig i ddatblygu trosolwg o gysylltiadau teuluol. Yn yr enghraifft isod, darparwyd braslun elfennol o faes gweryslla diawdurdod. Er mwyn i ystyriaethau lles ac effaith fod yn hysbys, gall deall pa deuluoedd sy'n byw ymhle fod yn bwysig, yn enwedig os yw canlyniad y sgwrs yn cael ei ddefnyddio i lywio apêl neu i gadarnhau casgliad bod y weithred o droi allan yn achosi niwed sylweddol i'r unigolyn, y teulu neu gymuned.




Unwaith i fraslun cael ei wneud o'r safle, mi fydd yn ymarfer da i ddangos cysylltiadau teuluol ar y map. Yn gyson â thechnegau eco-fapio, mae'r llun canlynol yn dangos sut y gellir dangos cysylltiadau teuluol.

Yn yr enghraifft isod, cynrychiolir gwrywod gan sgwariau a chynrychiolir benywod gan gylchoedd. Mae oedolion yn cael eu dynodi gyda'r lliw oren ac mae plant (rhai dan 18 oed) wedi'u lliwio'n wyrdd.

Dangosir y fenyw yn Nheulu K fel cylch gwyrdd wedi'i lenwi ag Oren. Mae hyn oherwydd bod y fenyw yn 17 oed, yn feichiog ond yn briod. Mae'r Gwrywod yn Nheulu E ac F wedi'u lliwio mewn glas i gynrychioli eu safle fel y prif gysylltiadau enwebedig a all helpu i drefnu sgwrsiau gydag aelodau eraill o'r gymuned.

I ddangos cysylltiadau teuluol, mae llinell ddu gref yn dynodi perthynas agos â theulu trwy enedigaeth neu briodas. Mae'r llinell las denau yn dynodi teulu agos fel neiniau a theidiau, gor-deidiau, wyrion, gor-wyrion, modrybedd, ewythrod, brodyr a chwiorydd yng nghyfraith a chefnodryd. Mae llinell doredig yn dynodi cyfeillgarwch agos.



Wrth ddisgrifio ystyriaethau lles, ceisiwch fapio cysylltiadau teuluol bob tro fel y gall llys ddeall yn well beth yw natur y cymorth y mae aelodau eraill o'r teulu yn ei gynnig i'w gilydd o fewn y gymuned. Er bod crynodebau teulu unigol yn bwysig, mae deall a darlunio'r 'system' y mae teulu'n gweithredu oddi mewn iddi, fel cymuned, yn

hanfodol. Gallai'r enghraifft a ddangosir uchod eich galluogi i egluro i'r llys sut mae'r gymuned yn cynnig mecanwaith o gyd-gefnogaeth mewn materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, cymorth cymdeithasol, a gofal plant. Gallai'r esboniad hwn hefyd eich galluogi i gadarnhau'r rhesymau pam mae troi allan yn cynrychioli pryder i iechyd cyhoeddus a allai wthio teuluoedd i argyfwng. Gall effaith hysbys yr amhariad posibl y gallai troi allan ei gael yn y 'system' hon hefyd eich galluogi chi i ddisgrifio'r ffactorau amddiffynnol presennol gan roi tystiolaeth a all arwain at benderfyniad mwy cymesur.

Atodiad 3. Arwyddion Diogelwch Signs of Safety®

Dechreuodd model Arwyddion Diogelwch (Signs of Safety®) yn y 1990au. Fe'i datblygwyd gan Andrew Turnell a Steve Edwards (Turnell, 2012) gan dynnu ar therapi sy'n canolbwyntio ar atebion a phrofiadau teuluoedd. Mae bellach yn ddull cynhwysfawr ac aeddfed sy'n cael ei weithredu ledled y byd.

Mae Signs of Safety® yn parhau i esblygu o fewn ei fframwaith craidd gan adlewyrchu arloesedd gan y rhai sy'n ei ddefnyddio mewn gwahanol leoedd a sefyllfaoedd. Wedi'i ddefnyddio o fewn Templed Sgwrs Lles ac Effaith gyda Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd, gall Arwyddion Diogelwch fod yn hynod ddefnyddiol wrth drawsnewid dealltwriaeth o ystyriaethau lles, polisi, dysgu ac arweinyddiaeth.

Mae Signs of Safety® yn fframwaith integredig ar gyfer sut i ddeall lles a risg. Gellir defnyddio ystod o offer ar gyfer sgysiau a gwneud penderfyniadau ond y prif fodolau a fabwysiadwyd yn Dempled Sgwrs Lles ac Effaith Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd yw'r dull "tair colofn" a "chwestiwn graddio". Un dull arall y gellid ei ddefnyddio yn yr asesiad hwn, yn dibynnu ar amgylchiadau a hyder yr aseswr, yw'r model tri thŷ, neu wedi'i addasu i berthnasedd, y model "tri threlar":



Trelar Pryderon

Trelar Pethau Da

Trelar Breuddwydion

Mae'r model "tri threlar", syniad a ddatblygwyd gan Michael Ridge, yn adnodd y gellir ei ddefnyddio'n eang i helpu plant i adnabod y pethau yn eu bywyd y maent yn teimlo'n bositif amdanynt, y pethau sy'n eu poeni, ac i egluro beth yw eu gobeithion yn eu breuddwydion a'u dyheadau.


Er bod y dechneg hon yn cael ei defnyddio'n aml gan weithwyr cymdeithasol mewn lleoliad amddiffyn plant, gellir ei haddasu'n hawdd ar gyfer gweithio gyda phlant a theuluoedd sy'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig â'r pwerau newydd sydd wedi'u cynnwys yn Neddf yr Heddlu. Am y rheswm hwn, fe argymhellir defnyddio'r model "tri threlar" lle bynnag y bo modd.

Asesiad Lles ac Effaith Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd: Canllawiau Arfer Da

Ysgrifennwyd y Canllawiau Arfer Da hyn gan Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRTSWA). Wedi'i sefydlu gan weithwyr cymdeithasol Romani a Theithwyr, nod y sefydliad hwn yw darparu ymateb ymarfer, polisi ac ymchwil i'r heriau a wynebir gan gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r Canllawiau Arfer Da hyn wedi'i ysgrifennu gan weithwyr cymdeithasol Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Gobeithiwn y bydd y Canllawiau Arfer Da hyn yn rhoi cyflwyniad i chi i Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd a'i fod yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer gwell dealltwriaeth o ystyriaethau lles a allai ddeillio o gamau gweithredu gan awdurdodau lleol a'r heddlu.

I ddarganfod mwy am Gymdeithas Gwaith Cymdeithasol Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu asesiadau lles ac effaith, sganwch y cod QR isod.



